

DECC – Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd

Ymgynghoriad ynghylch gweithredu Trydydd Pecyn Ynni Mewnol yr UE

**Y Gyfarwyddeb Drydan: 2009/72/EC
Y Gyfarwyddeb Nwy: 2009/73/EC
Y Rheoliad Trydan: (EC) Rhif 714/2009
Y Rheoliad Nwy: (EC) Rhif 715/2009
Y Rheoliad ACER: (EC) Rhif 713/2009**

URN: 10D/727



Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol
2. Cyflwyniad
3. Pennod 1 – Diogelu Defnyddwyr
4. Pennod 2 – Rhwydweithiau Trawsyrru a Dosbarthu
5. Pennod 3 – Seilwaith Nwy
6. Pennod 4 – Swyddogaeth yr Awdurdod Rheoleiddio Cenedlaethol
7. Pennod 5 – Cydweithio ar Draws Ffiniau

Atodiadau

Atodiad A

Crynodeb o gydymffurfio â'r darpariaethau newydd yn y Trydydd Pecyn.

Atodiad B

Cwestiynau'r ymgynghoriad a chwestiynau am yr Aseiad Effaith.

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen ymgynghorol hon yn gofyn am farn ynghylch newidiadau arfaethedig i fframwaith marchnad ynni Prydain Fawr sy'n angenrheidiol er mwyn gallu cydymffurfio â Thrydydd Pecyn Ynni yr Undeb Ewropeaidd ('y Trydydd Pecyn'). Mae'r Trydydd Pecyn yn cynnwys dwy Gyfarwyddeb a thri Rheoliad.

Mae'r ymgynghoriad yn disgrifio'r gofynion newydd a ddaw yn sgil y Trydydd Pecyn, i ba raddau y mae fframwaith Prydain Fawr eisoes yn cydymffurfio â hwy a disgrifiad o gynigion y Llywodraeth ar gyfer yr achosion hynny lle mae angen newidiadau.

Pennod 1 – Diogelu Defnyddwyr

Mae'r Trydydd Pecyn yn pennu mesurau i ymestyn diogelwch i ddefnyddwyr ac atgyfnerthu cystadleuaeth o fewn y farchnad adwerthol.

Y mesur mwyaf arwyddocaol yw un a fydd yn caniatáu i ddefnyddwyr symud cyflenwyr ynni o fewn tair wythnos ar ôl cytuno ar gytundeb. Ym marchnadoedd Prydain Fawr ar hyn o bryd ni cheir isafswm o ran y gofynion, ond mae yna fesurau diogelu defnyddwyr pwysig yn eu lle, yn arbennig cyfnodau i ailfeddwl pryd y gall defnyddwyr ailystyried unrhyw gytundeb. Y mae mesurau eraill lle mae angen newidiadau yn ymwneud â gwell gwybodaeth i ddefnyddwyr a datrys anghydfod.

Ein prif gynigion yn yr ymgynghoriad hwn yw mynnu bod cyflenwyr ynni yn:

- **cynnwys mewn cytundebau i gwsmeriaid yr hawl i newid eu meddyliau o fewn 14 diwrnod calendr ac yna gael eu symud o fewn tair wythnos, gan ddibynnu ar ddyled heb ei thalu (ac, yn achos cwsmeriaid nad ydynt yn rhai domestig, amodau'r cytundeb).**
- **rhoi gwell gwybodaeth i ddefnyddwyr am yr hyn a ddefnyddiant a sut i wneud cwyn.**
- **rhoi swyddogaeth arweiniol i Lais Defnyddwyr o ran cydgasglu a chynnal y rhestr wirio Defnyddwyr Ynni mewn cydweithrediad â'r diwydiant ac Ofgem.**

Pennod 2 – Rhwydweithiau Trawsyrru a Dosbarthu

Mae'r Trydydd Pecyn yn disgrifio gofynion newydd ar gyfer gwahanu ymgymeriadau trawsyrru oddi wrth y gwaith o gyflenwi ynni, cynhyrchu trydan a/neu ymgymeriadau cynhyrchu nwy ('dadfwndelu perchnogaeth'). Mae gan y gofynion hyn oblygiadau i nifer o gwmnïau sy'n gweithredu ym Mhrydain Fawr gan gynnwys perchnogion trawsyrru ar y môr ac ar y tir a rhyng-gysylltwyr. **Mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylid pennu'r gofynion ar gyfer dadfwndelu perchnogaeth mewn deddfwriaeth a rhoi'r grymoedd angenrheidiol i Ofgem er mwyn ardystio'r ymgymeriadau hyn yn erbyn y gofynion a bennir yn y Cyfarwyddebau.**

Mae'r Trydydd Pecyn yn caniatáu ar gyfer modelau eraill yn hytrach na dadfwndelu perchnogaeth yn llwyr. **Mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn bosibl nad yw un o'r modelau hyn, sef y model Perchennog Trawsyrro Annibynnol (ITO), yn gydnaws â fframwaith y farchnad ac mae'n ystyried yr achos dros beidio â'i wneud ar gael ym Mhrydain Fawr.**

Pennod 3 – Seilwaith Nwy

Nod darpariaethau'r Gyfarwyddeb Nwy yw gwella gweithrediad y farchnad storio nwy a chyfleusterau LNG. Mae'r Gyfarwyddeb yn cynnwys gofynion ar gyfer dadfwndelu gweithredwyr systemau storio nwy (SSOau), yn gyfreithiol a gweithredol, er mwyn sicrhau eu hannibyniaeth. Yn ogystal, mae'n cryfhau mynediad trydydd partion at gyfleusterau storio sy'n angenrheidiol yn dechnegol a/neu'n economaidd er mwyn darparu mynediad effeithlon at y system.

Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ynghylch ymdriniaethau er mwyn gweithredu'r gofynion hyn naill ai trwy ddeddfwriaeth (fel gyda'r rhwymedigaethau presennol) neu drwy drefn drwyddedu newydd.

Pennod 4 – Swyddogaeth yr Awdurdod Rheoleiddio Cenedlaethol (NRA)

Mae'r Trydydd Pecyn yn cydnabod pwysigrwydd rheoleiddio annibynnol er mwyn i farchnadoedd ynni weithredu'n dda. Ofgem yw'r rheolydd ar gyfer marchnadoedd ynni Prydain Fawr a NIAUR sy'n ymdrin â Gogledd Iwerddon.

Yn y Trydydd Pecyn rhoddir grymoedd a dyletswyddau newydd i reoleiddwyr cenedlaethol. Hefyd, y mae'n mynnu bod Aelod-Wladwriaethau yn sicrhau bod yr awdurdod rheoli yn annibynnol a bod ganddo'r pwerau angenrheidiol er mwyn gwneud penderfyniadau ymreolaethol. Er bod gan Brydain Fawr reoleiddiwr annibynnol, rydym yn bwriadu cryfhau rhai o'n trefniadau.

Ein prif gynigion yw:

- **er mwyn galluogi Ofgem i wneud penderfyniadau annibynnol mewn modd amserol a chyflym, dylid newid y broses addasu trwydded gyfunol bresennol fel na all y diwydiant wrthwynebu penderfyniadau ymlaen llaw, ac yn lle hynny rhoi hawl i apelio ar ôl y digwyddiad i'r holl drwyddedai y bydd y cynigion yn effeithio arnynt.**
- **gosod rhwymedigaeth ar Ofgem i sicrhau bod yr holl staff a gyflogir ganddo yn gweithredu'n annibynnol ar unrhyw fudd yn y farchnad ac nad ydynt yn ceisio nac yn derbyn cyfarwyddiadau uniongyrchol gan unrhyw endid yn y Llywodraeth neu endid arall cyhoeddus neu breifat pan fyddant yn cyflawni tasgau rheoleiddiol.**

- pennu mewn deddfwriaeth y rhyngweithiad rhwng y darpariaethau domestig sy'n gymwys i Ofgem a'r gofynion dan y Trydydd Pecyn ar i Ofgem weithredu fel yr Awdurdod Rheoleiddio Cenedlaethol (NRA).
- gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth er mwyn rhoi'r pwerau gofynnol i Ofgem gynnal ei ddyletswyddau newydd, gan gynnwys dyletswyddau monitro.
- gosod dyletswyddau newydd ar Ofgem i gydweithredu ac ymgynghori ag awdurdodau NRA eraill ac ACER, yr Asiantaeth newydd er Cydweithrediad rhwng Rheoleiddwyr Ynni.

Pennod 5 – Cydweithio ar draws ffiniau

Mae datblygu'r berthynas draws-ffiniol rhwng Aelod-Wladwriaethau ac NRAau wrth galon y Trydydd Pecyn. Yn ogystal â ffurfioli prosesau rhwng rhanbarthau a hyrwyddo cydlyniad rhanbarthol nwy o fewn y Cyfarwyddebau, mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer sefydliadau newydd a gynlluniwyd i wella cyfannu'r farchnad ynni fewnol, y grwpiau trydan a nwy newydd sef Rhwydwaith Ewropeaidd y Gweithredwyr Systemau Trawsyrru (ENSTO) ac ACER.

Sut i gymryd rhan

Cyhoeddwyd yr Ymgynghoriad hwn ar 27 Gorffennaf 2010 a bydd yn cau ar 19 Hydref 2010. Wrth ymateb, a wnewch chi nodi a ydych yn ymateb fel unigolyn ynteu'n cynrychioli barn sefydliad. A wnewch chi nodi'n eglur ar y Ffurflen Ymateb pwy y mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, lle bo'n gymwys, sut y casglwyd barn yr aelodau.

Er hwylustod, gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar lein yn: http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/imp_eu_third/imp_eu_third.aspx. Mae copi o'r Ffurflen Ymateb ar gael yn electronig o'r un cyfeiriad.

Gellir cyflwyno'r Ffurflen hefyd trwy lythyr, ffacs neu e-bost at:

Tim Ymgynghori'r Trydydd Pecyn
Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC)
Area 4C
3 Whitehall Place
Llundain SW1A 2HD
third.package@decc.gsi.gov.uk

Copiâu ychwanegol

Fe gewch chi wneud copiâu o'r ddogfen hon heb ofyn caniatâd. Gallwch ofyn am ragor o gopiâu o'r ddogfen ymgynghorol wedi'u hargraffu trwy e-bostio third.package@decc.gsi.gov.uk

Mae fersiynau eraill o'r ddogfen hon ar gael mewn Braille, ieithoedd eraill neu dapiau sain, ar eich cais.

Cyfrinachedd a Diogelu Data

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r Ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei rhyddhau i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r trefnau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Os ydych eisiau i wybodaeth a ddarparwch, gan gynnwys unrhyw ddata personol, gael ei thrin yn gyfrinachol, cofiwch, dan ddeddf FOIA, fod yna Gôd Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymdrin, ymysg pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

Yng ngoleuni hyn, fe fyddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio wrthym pam rydych o'r farn fod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi cyfrif llawn i'ch esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system Technoleg Gwybodaeth, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymol ar yr Adran.

Cymorth gydag ymholiadau

Gellir cyfeirio cwestiynau am y materion polisi a godir yn y ddogfen hon, a ffurflenni ymateb wedi'u llenwi, at:

Tîm Ymgynghori'r Trydydd Pecyn
Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd
Area 4C
3 Whitehall Place
Llundain SW1A 2HD
third.package@decc.gsi.gov.uk

© Crown copyright 2010

Department of Energy & Climate Change
3 Whitehall Place
London SW1A 2HD
www.decc.gov.uk

URN 10D/727